

[JMT&FG – 17-10-2018 – meeting note]

**GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CYD-WEINIDOGOL AR DDULL YSGOL
GYFAN O HYBU IECHYD MEDDWL A LLESIANT**

**CYFARFOD CYNTAF 17 HYDREF 2018,
YSTAFELLOEDD CYNADLEDDA C A D, LLAWR CYNTAF Tŷ HYWEL**

Eitem 1: Y Sawl a oedd yn Bresennol a Chroeso

Presennol	
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Vaughan Gething (CSHSS)
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg	Kirsty Williams (CSE)
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg	Lynne Neagle AC (LN)
Prif Weithredwr Arweiniol y GIG ar gyfer Iechyd Meddwl	Carol Shillabeer (CS)
Cyfarwyddwr Gwella Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru	Dr Julie Bishop (JB)
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru	Aled Evans (AE)
Pennaeth Uwchradd (Lewis Boys School)	Chris Parry (CP)
Dirprwy Bennaeth Cynradd (Ysgol Bro Morgannwg)	Emma Harris (EH)
Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu, Llywodraeth Cymru	Joanna Jordan (JJ)
Cyfarwyddwr Addysg, Llywodraeth Cymru	Steve Davies (SD)
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru	Albert Heaney (AH)
Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchgu Tlodi, Llywodraeth Cymru	Jo-Anne Daniels (JD)
Uwch Swyddog Meddygol (Iechyd Meddwl), Llywodraeth Cymru	Dr Liz Davies (LD)
Estyn	Mark Campion (MC)
Consortia Addysg Rhanbarthol	Debbie Harteveld (DH)
DECIPHer (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion)	Yr Athro Simon Murphy (SM)
Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru	Rachel Thomas (RT)
Uwch Swyddog Meddygol (Plant ac Iechyd Mamolaeth), Llywodraeth Cymru	Dr Heather Payne (HP)
Cynrychiolydd Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Iechyd Lleol	Kate Evans (KE)
Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru	Ruth Conway (RC)
Cyfarfod cefnogi ysgrifenyddiaeth	Jason Pollard (JP) Clare van Bohemen Hunter (CvBH)
Ymddiheuriadau	
Cynghorydd y Prif Swyddog Meddygol ar Seiciatreg Plant a'r Glasoed	Dr Dave Williams
Cynrychiolydd y Prif Swyddog Nyrsio	Sue Beacock

Cyfarwyddwyr Cyswllt Gwasanaethau Cymdeithasol, Penaethiaid Gwasanaethau Plant	Sally Jenkins
---	---------------

Agorodd CSHSS y cyfarfod am 09:35am.

Rhoddodd CSHSS a CSE grynodeb o'r cefndir i'r cyfarfod a phwysigrwydd yr hyn y mae'r grŵp yn ceisio ei gyflawni.

Eitem 2: Cylch Gorchwyl y Bwrdd

Gwahoddodd CSE y Grŵp i roi sylwadau ar y Cylch Gorchwyl

Trafodaeth ynghylch sicrhau bod y cysylltiad â rhaglenni eraill (yn benodol y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc) wedi'i greu yn fanwl a bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gynnwys plant a phobl ifanc wrth weithio ar y rhaglen.

Nododd LN nad oedd y cyfeiriad at Gadernid Meddwl yn hollol gywir ac awgrymodd eiriad amgen. Awgrymodd LN hefyd y dylid cynnwys seicolegydd yn y Grŵp a chwestiynodd y cyfeiriadau at iechyd corfforol yn y Cylch Gorchwyl, gan bwysleisio ei fod yn bwysig cadw ffocws y Grŵp ar iechyd meddwl.

Nododd AH fod Grŵp Cyngori'r Gweinidogion ar Wella Canlyniadau dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Plant yn berthnasol i waith y Grŵp hwn ac y dylid ymgynghori a chydweithio ag ef.

Cynhaliwyd trafodaeth ar bwysigrwydd cydweithio ac adeiladu sgiliau er mwyn i asiantaethau gydweithio. Nodwyd pwysigrwydd y dylai pawb dan sylw ddatblygu iaith a rennir gydag ystyron y cytunir arnynt.

Cadarnhaodd CSHSS mai prif ddiben y grŵp oedd iechyd meddwl a bod y cyfeiriadau at iechyd corfforol yn ymwneud â'r cysylltiad rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Tynnodd DH sylw at bwysigrwydd cael egwyddorion clir gan fod angen i ysgolion weld yn glir pa ran sydd ganddynt i'w chwarae, ac awgrymodd y dylid cynnwys pwynt am feithrin gallu.

Trafododd y Grŵp p'un a ddylid ad-drefnu rhan gyntaf y Cylch Gorchwyl er mwyn cael cylch gwaith a chwmpas cliriach, a ph'un a oedd angen datganiad cenhadaeth ar ei gyfer.

Trafodaeth bellach ynghylch aelodaeth y Grŵp. Awgrymwyd ychwanegiadau gan y gwasanaethau cymdeithasol a CLILC.

Trafododd y Grŵp y derminoleg ynghylch iechyd meddwl/llesiant meddwl a chytunodd mai'r ymadrodd a ddefnyddir yn y Cylch Gorchwyl, 'llesiant emosiynol ac iechyd meddwl' oedd yr opsiwn gorau.

Cam Gweithredu 1: Ailddrafftio'r Cylch Gorchwyl, gan wneud y newidiadau canlynol

- **Atgyfnerthu'r datganiad am blant a phobl ifanc i ddarllen 'bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i lywio a datblygu gweithgareddau'.**

- **Newid brawddeg olaf y Cylch Gorchwyl i ddarllen 'Wrth fwrw ymlaen â gweithgareddau, bydd y Grŵp yn rhoi ystyriaeth i weithgareddau ehangach, gan gynnwys, yn benodol, gwaith parhaus rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc'.**
- **Newid y cyfeiriad at Cadernid Meddwl i ddarllen 'mae'r adroddiad 'Cadernid Meddwl' yn pwysleisio'r angen am newid mawr o ran cefnogaeth**
- **Ychwanegu pwynt bwled ar sgiliau gweithio amlasiantaethol i'r adran ar egwyddorion.**
- **Ychwanegu pwynt bwled ar ddatblygu capasiti i'r adran ar egwyddorion.**

Cam Gweithredu 2: Adolygu aelodaeth y grŵp i gynnwys seicolegydd.

Cam Gweithredu 3: CSHSS i gysylltu â Huw David i drafod cynnwys CLILC yn y Grŵp.

Eitem 3: Cynllun gwaith

Nododd CSHSS mai'r bwriad yw i'r cynllun gwaith fod yn ddogfen fyw, gan ystyried camau gweithredu a gwelliannau yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Gofynnodd CSHSS am adborth ar adran diffiniadau'r ddogfen.

Roedd cytundeb cyffredinol yn yr ystafell fod y cynllun yn rhy gymhleth, ac y byddai'n well gan y grŵp weld dogfen symlach, lefel uchel. Mae lefel y manylion yn fwy priodol ar gyfer rhywbeth ar lefel is. Pwysleisiodd athrawon bwysigrwydd sicrhau bod y cynllun yn glir ac yn ymarferol i'r ysgolion ei ddeall. Ychwanegodd CP ei bod yn bwysig uwchsgilio pobl ifanc yn ogystal â staff ysgolion er mwyn iddynt allu bod yn hunangynhaliol ar ôl gadael yr ysgol.

Tynnodd AE sylw at bwysigrwydd cynnwys cyfeiriad at adeiladu ysgolion cynhwysol.

Awgrymodd SM y dylid gwneud diagram/model rhesymeg er mwyn rhoi fframwaith i'r cynllun a delweddu'r rhyngddibyniaethau a chynnig helpu i greu model rhesymeg.

Mae gan Estyn gylch gorchwyl i adolygu llesiant ysgolion y flwyddyn nesaf ac mae wedi datblygu manyleb ar gyfer diffinio ysgol lwyddiannus. Cynigiodd MC rannu hyn er mwyn iddo gael ei ddefnyddio fel fframwaith ar gyfer y dull ysgol gyfan.

Nododd SD fod y dull ysgol gyfan yn cyd-fynd ag Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl ac y dylai gyfeirio at hyn er mwyn creu cysylltiadau ag agenda addysg ehangach Llywodraeth Cymru.

Parhaodd y drafodaeth ar y gwahaniaeth rhwng dull ysgol gyfan a dull system gyfan a sut i sicrhau bod gennym un dull integredig. Cytunwyd y dylid gwahaniaethu rhwng yr hyn y disgwylir i ysgolion ei wneud a'r help a gânt yn allanol. Pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod y cysylltiadau rhwng ysgolion a chymorth allanol yn gryf. Nododd LN fod Cadernid Meddwl yn trafod dull ysgol gyfan o fewn system gyfan. Cytunodd CSE fod hyn yn gydbwysedd da am ei fod yn cydnabod na ellir disgwyl i ysgolion wneud hynny ar eu pen eu hunain.

Nododd CS bwysigrwydd byrddau partneriaeth rhanbarthol i lwyddiant y rhaglen a'r cyfleoedd maent yn eu cynnig ar gyfer cefnogi'r rhaglen. Nododd hefyd y dylid cynnwys llinyn digidol a thechnoleg ac ychwanegodd y dylid ystyried llesiant athrawon a staff ysgolion.

Awgrymodd CSHSS y gellid creu darn o waith yn archwilio beth roedd y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn ei wneud a sut y gallant gefnogi gwaith y rhaglen, naill ai gan y grŵp hwn neu gan y grŵp rhanddeiliaid yn y dyfodol.

Pwysleisiodd LN bwysigrwydd yr adran sgiliau a gwybodaeth a'r broses o fapio darpariaeth bresennol er mwyn osgoi achosion o ddyblygu. Nododd JB fod Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc eisoes wedi cynnal ymarfer mapio. Y cytundeb cyffredinol oedd bod hwn yn fan cychwyn da, ac y dylai'r ymarfer mapio fynd tuag at ddatblygu dewislen o ddarpariaeth, gyda chanllawiau'n cael eu darparu ynghylch pa ddarpariaeth yw'r gorau ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol.

Nododd JB fod cysylltedd yn hanfodol ac awgrymodd fod y cynllun gwaith yn atgyfnerthu ei gyfeiriadau at gysylltedd.

Cyfeiriodd AE at gynnwys rôl rhieni ac awgrymodd y gallai hyn weithio'r ddwy ffordd er mwyn helpu plant a phobl ifanc i ddeall iechyd meddwl eu rhieni yn ogystal ag i'r gwrthwyneb.

Mae gan seilwaith y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion y posibilrwydd o gefnogi gwaith y rhaglen, gan nodi arloesedd o fewn y system a datblygu egwyddorion er mwyn gwerthuso'r broses.

Awgrymodd MC y gellid trefnu cynllun gwaith er mwyn rhoi ysgolion yn gyntaf a gweithio tuag allan oddi yno er mwyn adlewyrchu'r ysgol gyfan o fewn y dull system gyfan.

Trafododd y grŵp bwysigrwydd cydberthnasau a ph'un a gawsant eu hadlewyrchu yn y cynllun gwaith, yn ogystal â chysylltiadau pendant â'r agenda diwygio addysg ehangach. Nododd rhanddeiliaid addysg nad oedd nifer o rwydweithiau allweddol wedi cael eu cynnwys a bod diffyg trafodaeth am ddiwylliant. Awgrymwyd y gallai gwaith Estyn gael ei integreiddio yma.

Cam Gweithredu 4: Diwygio'r cynllun gwaith i adlewyrchu trafodaeth gyda chymorth SM ac MC a'i aiddosbarthu.

Eitem 4: Grŵp cyfeirio rhanddeiliaid

Nododd LN er bod manteision i gadw'r grŵp yn fach, bod angen iddo adlewyrchu amrywiaeth y rhanddeiliaid a dylai gynnwys seicoleg clinigol, gwaith ieuenctid, cynrychiolwyr undeb, yr iaith Gymraeg a rhanddeiliaid academiaidd. Cafwyd trafodaeth ynghylch y ffordd orau o sicrhau cynrychiolaeth undeb. Awgrymodd CSHSS y dylid gofyn i Gyngres yr Undebau Llafur enwebu rhywun.

Gofynnodd CS am eglurhad ar y cylch gwaith ar gyfer y grŵp, yn benodol y cylch gwaith y dylai aelodau hyrwyddo a chynnwys gwaith y rhaglen dull ysgol gyfan. Cytunodd CSE y dylid addasu hyn er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau'n glir.

Trafodaeth bellach ynghylch aelodaeth y grŵp: yr awgrymiadau eraill a gafwyd oedd cael aelodau ychwanegol o'r trydydd sector, rhoi llais cryfach i ymarferwyr a chael mwy o rhanddeiliaid addysg, gwasanaethau ieuenctid, chwaraeon a sicrhau bod grwpiau wedi'u heithrio yn cael llais.

Nododd RC fod nifer o rwydweithiau rhanddeiliaid y gallwn fanteisio arnynt yn ogystal â'r grŵp pwrpasol hwn.

Cam Gweithredu 5: Diwygio'r Cylch Gorchwyl er mwyn sicrhau bod y cylch gwaith yn gliriach a'i ailddosbarthu

Cam Gweithredu 6: Ehangu'r rhestr aelodaeth i gynnwys amrywiaeth ehangach o randdeiliaid fel y nodwyd yn ystod y drafodaeth, yn cynnwys CSE yn ceisio cael enwebiad gan Gyngres yr Undebau Llafur, a'i hailddosbarthu.

Eitem 5: Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Ceir teimlad cyffredinol mai gorau po fwyaf o ymgysylltu a wneir â phlant a phobl ifanc, a bod model cyd-gynhyrchu o fudd mawr i'r rhaglen ac i'r bobl ifanc dan sylw. Roedd y prif bryder yn ymwneud â sicrhau bod amrywiaeth o leisiau'n cael eu cynnwys. Cafwyd trafodaeth ynghylch grwpiau pobl ifanc eraill sydd eisoes yn bodoli ac a allai fod wedi arfer â chael amrywiaeth ehangach o leisiau fel cynghorau ysgol a grwpiau llesiant a byrddau iechyd ieuencid. Awgrymwyd hyn fel dull mwy effeithiol na sefydlu grŵp rhanddeiliaid ieuencid ar gyfer y rhaglen dull ysgol gyfan. O ran beth y dylid ymgysylltu â phobl ifanc yn ei gylch, teimlwyd ei bod yn bwysig ymgysylltu ar faterion a chwestiynau pwysig yn hytrach na phryderon ehangach/mwy cyffredinol gan ei bod fel arfer yn fwy ystyrlon a diddorol i bobl ifanc weithio ar y rhain.

Dyweddodd SM fod y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn sefydlu rhwydwaith cyd-gynhyrchu i bobl ifanc a byddai'n hapus i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynghylch y prosesau ymgynghori a chasglu data gyda'r nod o dynnu sylw at yr amrywiaeth o ddata sydd eisoes yn cael eu casglu y gellir eu defnyddio i gefnogi'r broses o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Cam Gweithredu 7: Adolygu'r strategaeth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc er mwyn manteisio i'r eithaf ar grwpiau a rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes.

Eitem 6: papurau i'w nodi ac Unrhyw Fater Arall

Nodwyd strategaeth cyfathrebu ac adolygiad llenyddol o'r rhaglen dull ysgol gyfan.

Ni chodwyd unrhyw faterion ychwanegol. Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ddiwedd mis Chwefror 2019 gyda gwahoddiadau'n cael eu hanfon allan cyn Nadolig 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:10am.